



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant – Cwestiynau Cyffredin

A fydd mwy alwad am gynigion dros gyfnod oes y grant?

Bydd. Gan ddibynnu ar y cyllid sydd ar gael, bwriadwn agor r agor ffenestr arall yn gynnwys yn y Flwyddyn Ariannol newydd (h.y 2020-21).

Beth yw BBaCH?

Sefydliad yw BBaCh sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac sydd â throsiant o lai na £39m (50m ewro) neu fantolen o lai na £33m (43m ewro). Ar y sail honno, cyfrifir bod dros 99% o elusennau'n BBaCh.

Allwch chi fod yn bartner mewn mwy nag un cais?

Gallwch. Pan fo sefydliadau yn rhan o fwy nag un cynnig, dylid nodi hyn yn glir yn y ceisiadau grant sy'n cael eu cyflwyno. Asesir pob cais yn ei rhinwedd ei hun, a bydd y meini prawf asesu yn rhan o'r canllawiau.

Sut gall busnesau fod yn rhan o'r prosiectau?

Bydd cynnwys y gymuned fusnes yn gallu bod yn fuddiol i'r prosiectau cydweithredol a'r busnesau eu hunain. Gellir llunio cynigion grant mewn modd sy'n cefnogi amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer busnesau, yn cynnwys creu cadwyn gyflenwi o swyddi, mwy o dwristiaeth a chyfleoedd ar gyfer incwm, cyfleoedd i weithwyr a chymunedau wirfoddoli a datblygu sgiliau yn y fargen.

Gallai'r rhain i gyd wneud cyfraniad hirdymor i'r economi werdd yng Nghymru yn gyffredinol. Er enghraifft, mae Forest Research yn amcangyfrif bod gwerth eiddo'n cynyddu 2.6%-11.3% oherwydd eu bod yn agos at fannau gwyrdd o ansawdd uchel. Hefyd, maen nhw'n amcangyfrif bod pob £1 o wariant cyhoeddus yn ysgogi £4.20 o fuddsoddiad o'r sector preifat. Enghraifft bellach o'r fantais economaidd yw'r hyn a gafwyd yn sgil Llwybr yr Arfordir lle nodwyd bod gwerth manteision cerdded yn £24.9 miliwn, gydag effaith ar gyflogaeth yn 990 gweithiwr y flwyddyn (Uned Ymchwil Effaith ar yr Amgylchedd, Prifysgol Caerdydd). Fodd bynnag, sylweddolwn fod rhai sectorau gan gynnwys y sector fusnes yn fwy anodd ymgysylltu â hwy. Hwyrach y byddwch am ystyried sut gellir cynnwys ymgysylltiad busnesau yn eich cais am gyllid. Mae'r grant yn darparu cyllid ar gyfer y weithred o gydweithredu ac felly efallai yr hoffech gynnwys y gwaith o sicrhau cyfranogaeth y sector busnes/preifat fel prosiect penodol ar ei ben ei hun neu fel elfen o brosiect ehangach.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Grant y Cynllun Datblygu Cynaliadwy a'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant?

Mae'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy (CDC) yn cefnogi prosiectau sydd, yn bennaf, yn ystyried ymyriadau ar raddfa'r dirwedd ac sy'n dod â manteision i reolwyr tir, busnesau a chymunedau.

Fe'i lluniwyd o dan is-fesur 16.5 o Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig ac mae'n cynnig cyfuniad o gyllid refeniw a chyllid cyfalaf i grwpiau cydweithredol sydd am:

- wella'n hadnoddau naturiol a'r manteision y maent yn rhoi inni
- gweithredu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd
- helpu busnesau a chymunedau i ymdopi'n well ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Bydd y Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yn cefnogi prosiectau sydd, yn bennaf, yn arwain at welliannau oddi mewn ac o gwmpas ardaloedd preswyl drwy ddod â manteision i bobl, busnesau a'u cymunedau.

Mae'n cynnwys is-fesurau 7.4 and 16.2 o Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig ac mae'n cynnig cyfuniad o gyllid refeniw a chyllid cyfalaf. Mae'n cynnwys tri

math o gyllid ac yn canolbwyntio ar brosiectau peilot a phrosiectau arddangos, ar y raddfa briodol, i hyrwyddo cydweithredu a chydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r tair thema gweithredu isod:

- Datblygu, adfywio ac ehangu mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy
- Gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig
- Datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth, ardaloedd ac atebion sy'n seiliedig ar natur.

Yn y **naill achos a'r llall**, mae'r grantiau'n hoelio sylw ar annog prosiectau **cydweithredol** a fydd yn arwain at amryfal **fanteision** i gymunedau ac at well canlyniadau ar draws y nodau **llesiant**, gan helpu i greu **modelau mwy cynaliadwy ar gyfer cyflawni yn y tymor hir**.

Bydd yna achosion lle y byddai modd defnyddio'r naill grant neu'r llall i gefnogi'r camau a gaiff eu cynnig neu eu cymryd. Rydym yn sylweddoli hynny ac yn derbyn ei fod yn ganlyniad i'r ffordd gyffredin o weithio. Mae'n debyg y byddai sefyllfaoedd o'r fath yn tueddu i godi ar dir amaethyddol neu ar dir comin sy'n agos i amgylcheddau adeiledig. Yn yr achosion hynny, mae'n briodol, wrth fynd ati i chwilio am ffynonellau cyllid, i edrych ar ffocws cyffredinol y prosiect a'r rheini a fydd ar eu hennill yn y pen draw.

Mae'n dderbyniol i ddau brosiect sy'n cael eu hariannu ar wahân drwy'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy a'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant ddewis cydweithio ar y ddau brosiect hynny er mwyn gwella neu ategu canlyniadau'r prosiectau unigol. Gall y naill brosiect neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, gefnogi'r cydweithredu hwn rhwng prosiectau ar yr amod nad oes unrhyw ddyblygu o ran cyllid.

Mae'n bosibl hefyd i'r cydweithio hwn rhwng prosiectau sy'n cael cymorth o dan y Cynllun Datblygu Cynaliadwy a'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant fod yn rhan o raglen waith fwy strategol, megis partneriaeth datblygu rhanbarthol. Mae hynny'n bosibl ar yr amod bod y prosiectau arfaethedig yn berthnasol i ganllawiau'r cynlluniau priodol, bod y gweithgareddau sy'n rhan ohonynt yn rhai cymwys ac nad oes unrhyw ddyblygu rhwng y ffynonellau cyllido hyn a threfniadau cyllido eraill yr UE (e.e. LEADER, RCDF).

A oes diffiniad o'r term *Preswyl* ar gyfer y Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant? A yw'r grant yn hoelio sylw ar ardaloedd trefol yn unig?

At ddibenion y cynllun grant hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi egluro nad yw wedi darparu diffiniad o ardaloedd preswyl, gan nad yw am fod yn rhy benodol a'i bod yn dymuno caniatáu peth hyblygrwydd o ran diffiniad y term (sy'n esbonio pam y defnyddir y term hwn yn bennaf) a sut y mae'n berthnasol ar draws y tair thema weithredu a nodir yng nghanllawiau'r grant sef:

1. Datblygu, atgynhyrchu ac ehangu mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy;
2. Gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig; a
3. Datblygu rhwydweithiau, ardaloedd ac atebion ecolegol cydnerth yn seiliedig ar natur.

Yn seiliedig ar y themâu gweithredu hyn, mae Llywodraeth Cymru yn glir na fwriedir i'r grant gael ei gyfyngu i ardaloedd trefol yn unig. Mae'r grant yn hoelio sylw ar wneud gwelliannau clir ac amlwg yn yr ardaloedd hynny lle y mae pobl byw ac o'u hamgylch, a gwella mynediad i seilwaith gwyrdd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r drydedd thema uchod. Er ei bod yn canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd lle y mae pobl yn byw ac o'u hamgylch, gall gynnwys gweithgarwch mewn ardaloedd mwy gwledig lle y bydd y gwaith cyflenwi yn canolbwyntio, er enghraifft, ar wella mynediad i bobl mewn ardaloedd preswyl, a/neu sicrhau mwy o fuddiannau llesiant i bobl a chymunedau, drwy (er enghraifft) wella cydnerthedd ecosystemau. Fodd bynnag, nid diben y grant hwn yw dyblygu cynlluniau sydd eisoes yn bodoli megis y Cynllun Rheoli Cynaliadwy neu Glastir,

neu fecanweithiau ariannu yn y dyfodol fel y rheini sy'n cael eu hystyried dan gynigion rheoli tir yn y dyfodol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ffocws y grant.

Cyflogau Staff a Gorbenion

A gewch chi godi am gyflogau gwirioneddol? Cewch, ond bydd yn rhaid ichi ddarparu tystiolaeth am y cyflogau gwirioneddol (h.y. y gyflogres) ac os nad yw staff yn gweithio'n llawnamser ar y prosiect, **bydd angen ichi ddefnyddio** costau wedi'u symleiddio a hawlio ar sail taflenni amser.

A gewch chi godi am orbenion gwirioneddol? Cewch, ond bydd yn rhaid ichi ddarparu tystiolaeth am y gorbenion gwirioneddol ac ni chaniateir ichi eu dosrannu. Rhaid iddynt fod yn anfonebau uniongyrchol.

A gewch chi godi am gyflogau gwirioneddol ac yna am gostau wedi'u symleiddio ar gyfer gorbenion? Dylai'r gyfradd safonol ar gyfer gorbenion fod yn 15% o'r costau staff, boed yn rhai gwirioneddol neu'n rhai sy'n seiliedig ar unedau, a chewch gynnwys unrhyw orbenion y dymunwch heb fod angen ichi gyflwyno tystiolaeth yn ystod y cam arfarnu neu'r cam hawlio.

A gewch chi ddefnyddio costau wedi'u symleiddio ar gyfer gorbenion a chyflogau? Cewch. Dylai'r gorbenion fod yn 15% o'r costau staff. Dylid defnyddio'r gyfradd uned safonol 1,720 ar gyfer costau staff.

A gewch chi ddefnyddio unrhyw gynnydd posibl mewn blynyddoedd yn y dyfodol ar gyfer costau cyflogau? Cewch. Os oes cytundeb yn ei le eisoes neu os gallwch ddarparu tystiolaeth ddilys, ar sail blynyddoedd a fu, bod cynnydd o'r fath i'w ddisgwyl.

Talu – a yw trosglwyddo o un gyllideb fewnol i un arall yn cael ei gyfrif yn dalu? Nac ydy. Ni chaniateir ailgodi tâl yn fewnol. Yn achos sefydliadau yn y sector preifat, i hawliad fod yn ddilys bydd angen tystiolaeth am daliadau banc mewn cyfriflenni banc ac yn achos sefydliadau yn y sector cyhoeddus, bydd angen tystiolaeth ar ffurf adroddiadau am drafodion mewn cyfriflyfrau. Yr unig adeg nad oes angen tystiolaeth am daliadau yw yn achos costau uned wedi'u symleiddio ac yn achos y gyfradd sylfaenol.

A yw'n dderbyniol i gyflogi staff bresennol ar brosiect ? Ydy, ond dim ond ar gyfer staff a gyflogir yn benodol i weithio 100% ar y prosiect y ceir codi am gostau diswyddo.